

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A'R NOS LUN 29AIN O FAWRTH 2021 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL:

Y Cyngorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Ceri Davies, Bari Evans, Arwel Davies, Geraint Jones a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU:

Y Cyngorwyr Stan Williams, Hywel Davies, Falmai Evans a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch.

2A. YMDDISWYDDIAD:

Derbyniwyd y Cadeirydd ymddiswyddiad Iwan Jones fel aelod o'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd y Clerc gyrru nodyn o ddiolch i Iwan Jones am ei holl waith ers 2008 fel Cyngorydd Cymunedol ac i hysbysu'r sedd wag y Cyngor.

3. DDATGAN DIDDORDEB:

Cyngorydd Bari Evans ar eitem 9C isod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD A'R 22AIN O CHWEFROR 2021.

Cadarnhawyd cofnodion 22ain o Chwefror 2021 gan y Cyngorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gefnogaeth arian y Cyngor oddi wrth y mudiadau canlynol:-

- 1: Gynnal mynwentydd hen Eglwys Iago Sant, Pant Pastynog a mynwent Eglwys Dyfnog Sant.
2. Ysgol Pant Pastynog.
3. Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr Y.C.
4. Clwb Sêr Prion.
5. Caban Ysgol Pant Pastynog.
6. Gynnal mynwent Capel Saron.

B: Mae Cyngor Sir Ddinbych yn edrych ar y materion canlynol:-

- 1: Eisiau trwsio'r wal ffordd Eglwys Llanrhaeadr heb oedi oherwydd iechyd a diogelwch.
2. Eisiau glanhau o dan bont yr afan wrth y King's Head yn Llanrhaeadr.
3. Eisiau trwsio'r ffordd wrth Rossa Fawr, Prion.
4. Eisiau trwsio'r ffordd wrth Brÿn Mulan, Prion.

C. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru am edrych ar yr afon heibio Nant-y-Felin, Llanrhaeadr sydd eisiau ei lanhau.

6. DIWEDDARAF BAND EANG Y GYMUNED.

Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd ei fod mewn cysylltiad gyda Mr Steve Ellis, Rheolwr Cymru "Broadwy Broadband", i gynnal cyfarfod ynglŷn am roi gwasanaeth "Ffibr Cyflym" yn y gymuned cyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

7. DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

8. MATERION CYLLID.

A: Datganiad banc £11,292.39.

B. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Townsend Supplies (Dinbych) am fagiau tywod ar gyfer y llifogydd 20fed o Ionawr 2021 - £108.00.
2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2021 - £489.60.
3. Lwfans y Cadeirydd am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2021 - £1,200.00.
4. HM Revenue & Customs am PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2021 - £422.40.
5. Chostau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2021 - £774.35.
6. Un Llais Cymru – Tal Aelodaeth am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2021 - £158.00.

9. CEISIADAU BLYNYDDOL AM GEFNOGAETH Y CYNGOR.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr Aelodau i'r rhoddion blynyddol canlynol:-

A: Catrin Roberts - Digwyddiad Past i'r Plant yn y gymuned - £200.00.

B. Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr - £1,000.00.

C. Cymdeithas Gymunedol ac adnewyddu'r parc, Llanrhaeadr - penderfynwyd gadael ar y bwrdd tan gyfarfod nesaf y cyfarfod er mwyn chael manylion ychwanegol i'r cais oddi wrth Gynghorydd Bari Evans.

10. CAIS CYNLLUNIO:-

Cais 23/2021/0196 - Newid y defnydd o dir i ffurfio estyniad i gwrtil preswyl, codi estyniad ochr cysylltiedig un llawr a throsi adeilad allanol i ffurfio llety ategol. Trosi adeilad allanol domestic i osodiad gwyliau, gosod gwaith trin pecyn a gwaith cysylltiedig yn Wae'n Goch, Prion - dim gwrthwynebiad.

11. CLWSTWR YSGOLION BRO CINMEIRCH A PHANT PASTYNOG.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â Chlwstwr Ysgol Bro Cinmeirch a Thrafnidiaeth Ysgol Uwchradd.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd ysgrifennu at y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts a Mr Geraint Davies o'r Cyngor Sir Ddinbych fel y canlynol:-

A: Clwstwr Ysgol Bro Cinmeirch

Ein dealltwriaeth, fel Cyngor, ydi bod y mater yma wedi cael ei drafod gan Gyngor Sir Ddinbych yn 2018 yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd. Rydym ar ddallt bod Mr Geraint Parry yn rhan o'r broses ac yno i gynrychioli Ysgol Bro Cinmeirch fel rhan o glwstwr Ysgol Brynhyfryd. Deallwn fod Mr Parry ddim wedi trafod y mater yma hefo pennaeth Ysgol Bro Cinmeirch na'r Llywodraethwyr cyn neu yn ystod y broses felly roedd ddim cyfle i Ysgol Bro Cinmeirch mynegi ei barn un ffordd neu'r llall ar y mater.

Deallwn hefyd bod Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno i wrthod unrhyw broses o apelio'r penderfyniad. Credwn fod hyn yn annheg ac yn mynd yn erbyn canllawiau Llywodraeth Cymru 'Making Good Decisions' <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/making-good-decisions.pdf>

ac yn benodol pwynt 4 'Has the decision-maker failed to take relevant considerations into account or been influenced materially by irrelevant considerations?' a phwynt 5 Has the decision-maker fettered its discretion by applying a rigid policy?

Mae bob ysgol gynradd ac uwchradd hefo bwrdd o lywodraethwyr ac yn gorfod sicrhau bod yr ysgol yn cyfarfod dibenion addysgol y plant sy'n mynychu'r ysgol, ei diogelwch ond hefyd

sefyllfa ariannol yr ysgol. Wrth osod mewn lle polisi sy'n clymu ysgol, heb system apêl, i gyfundrefn a all fod yn erbyn dymuniadau'r bwrdd llywodraethol yr ysgol cael ei weld fel un sy'n mynd yn erbyn y canllawiau uchod.

B. Trafnidiaeth.

Heblaw bod trafndiaeth a chlwtwr ysgolion yn ddau bolisi arwahanu mae linc rhyngddynt oherwydd bod trafndiaeth i ysgol uwchradd yn rhannol ddibynnol o ran pa glwtwr mae'r ysgol yn glwm iddi.

O fewn ardal Cyngor Cymuned Llanrhaeadr mae dwy ysgol, y ddwy yn ysgol categori 1 ond mae plant sy'n mynychu ysgol Pant Pastynog a hawl i drafndiaeth am ddim i Ysgol Glan Clwyd oherwydd ei fod o fewn clwtwr yr ysgol honno ond hefyd, o dan y polisi trafndiaeth bresennol yr hawl i drafndiaeth i Ysgol Brynhyfryd oherwydd ei fod yn agosach. Mae'r gwrthwyneb i blant sy'n mynychu Ysgol Bro Cirnmeirch.

Fel y gwyddoch dwy flynedd yn ôl, mewn cyfarfod rhyngoch chi, Karen Evans a Chadeirydd Cyngor Cymuned Llanrhaeadr, Elfed Williams (ond yno yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd RHAG) cytunwyd oherwydd y diffygion yn y broses ymgynghorol clwtwr ysgolion bod plant oedd yn mynd i Ysgol Glan Clwyd yn parhau i gael trafndiaeth i'r ysgol honno.

Oherwydd bod y sefyllfa ddim wedi cael ei ail asesu yn dilyn y cyfarfod hwnnw gofynnwn fod yr un cynnig yn cael ei roi i blant sydd wedi dechrau ers hynny yn Ysgol Glan Clwyd hefo'r sicrwydd ei bod yn cael bws i Ysgol Glan Clwyd am weddill ei hamser yn yr ysgol honno.

Deallwn eich bod yn cyfarfod ac Elfed Williams ar y 9 Ebrill yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd RHAG. Gofynnwn eich bod yn trafod y materion uchod ac Elfed Williams yn ystod y cyfarfod.

12. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd adroddiad Amgueddfa ac Archif Dinbych er wybodaeth.

13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd hysbysu Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ar waith sydd wedi cychwyn ar y ddau safle presennol yn ddiweddar:-

A: Llyn Pysgota Cae'r Mynydd yn Saron.

B. Cyn Eglwys Prion ym Mhant Pastynog.

14. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Penderfynwyd y Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

A: Arwyddion Cae'r Felin/Llys Gwilym yn camarwain pobl parseli yn mynd i mewn i'r stadau.

B. Tyllau yn y ffordd wrth Ben-y-groes, Prion.

C. Tyllau yn y ffordd wrth Dyddyn Isa' i Brÿn Mulan, Prion.

D. Tyllau yn y ffordd wrth Wae'n Goch, Prion.

E. Shorecliffe Training wedi hawlio ychwaneg o dir yn Graig Lwyd ym Mhrion.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – NOS LUN 26AIN O EBRILL 2021.